## ATODLEN 1

Erthygl 3

Darpariaethau trosiannol ac arbedion

### Dehongli

**1.** Yn yr Atodlen hon—

ystyr "y Rheoliadau Hysbysu" ("*the Notification Regulations*") yw Rheoliadau Diogelu Iechyd (Hysbysu) (Cymru) 2010(**1**); ac

ystyr "y Rheoliadau Pwerau Awdurdodau Lleol" ("*the Local Authority Powers Regulations*") yw Rheoliadau Diogelu Iechyd (Pwerau Awdurdodau Lleol) (Cymru) 2010(**2**).

### Adran 9 o Ddeddf 1984

**2.** Mae adran 9 o Ddeddf 1984 (llongau ar ddyfroedd mewndirol neu arfordirol) yn parhau mewn grym at ddibenion adran 13 o Ddeddf 1984 (rheoliadau ar gyfer rheoli clefydau penodol) (er gwaethaf diddymu adran 9 gan Ddeddf 2008).

### Adran 11 o Ddeddf 1984: dyletswydd ymarferwyr meddygol cofrestredig

**3.**—(1) Pan fo—

(a) dyletswydd ar ymarferydd meddygol cofrestredig o dan adran 11 o Ddeddf 1984 (adrodd am achosion o glefyd hysbysadwy a gwenwyn bwyd) wedi codi cyn 26 Gorffennaf 2010 ond heb ei chyflawni cyn y dyddiad hwnnw; a

(b) y ddyletswydd honno yn gysylltiedig â chlefyd hysbysadwy a restrir yn Atodlen 1 i'r Rheoliadau Hysbysu (Clefydau a Syndromau Hysbysadwy),

rhaid i'r ymarferydd meddygol cofrestredig gydymffurfio â rheoliad 2 o'r Rheoliadau Hysbysu (dyletswydd i hysbysu ynghylch amheuaeth o glefyd, haint neu halogiad mewn cleifion).

(2) At ddibenion is-baragraff (1), rhaid trin yr ymarferydd meddygol cofrestredig fel pe bai wedi ffurfio amheuaeth o dan reoliad 2(1) o'r rheoliadau Hysbysu ar 26 Gorffennaf 2010.

### Adran 11 o Ddeddf 1984: dyletswydd swyddogion priodol

**4.**—(1) Pan fo—

(a) swyddog priodol awdurdod lleol wedi cael tystysgrif yn unol ag adran 11(1) o Ddeddf 1984 (adrodd am achosion o glefyd hysbysadwy a gwenwyn bwyd);

(b) y swyddog priodol heb gyflawni'r ddyletswydd o anfon copïau o'r dystysgrif honno at bartïon penodedig eraill o dan adran 11(3) o'r Ddeddf honno(**3**) cyn 26 Gorffennaf 2010; ac

(c) y dystysgrif yn ymwneud â chlefyd hysbysadwy a restrir yn Atodlen 1 i'r Rheoliadau Hysbysu (Clefydau a Syndromau Hysbysadwy),

rhaid trin y dystysgrif honno fel hysbysiad a anfonwyd o dan reoliad 2 o'r Rheoliadau Hysbysu (dyletswydd i hysbysu ynghylch amheuaeth o glefyd, haint neu halogiad mewn cleifion).

(2) At ddibenion is-baragraff (1), rhaid trin y swyddog priodol fel pe bai wedi cael yr hysbysiad ar 26 Gorffennaf 2010.

---

(**1**) O.S. 2010/1546 (Cy.144).
(**2**) O.S. 2010/1545 (Cy.143).
(**3**) Cyn ei diddymu, diwygiwyd adran 11(3) gan Ddeddf Diwygio'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol a Phroffesiynau Gofal Iechyd 2002 (p.17), Atodlen 2, Rhan 2, paragraffau 50(1) a (2).

**Adran 20 o Ddeddf 1984**

**5.** Pan fo—

(a) swyddog priodol awdurdod lleol wedi gwneud cais o dan adran 20 o Ddeddf 1984(**4**) (atal gwaith er mwyn rhwystro clefyd rhag lledaenu); a

(b) pan na chydymffurfiwyd â'r cais hwnnw cyn 26 Gorffennaf 2010 a'r cais heb ddod i ben nac wedi ei dynnu'n ôl,

rhaid trin y cais fe cais a wnaed o dan reoliad 8 o'r rheoliadau Pwerau Awdurdodau Lleol (ceisiadau am gydweithredu at ddibenion diogelu iechyd).

**Adran 21 o Ddeddf 1984**

**6.** Pan fo—

(a) hysbysiad wedi ei ddyroddi i berson sydd â gofal am blentyn, o dan adran 21 o Ddeddf 1984 (allgáu plentyn o'r ysgol os yw'n dueddol o drosglwyddo clefyd hysbysadwy); a

(b) tystysgrif hed ei dyroddi gan swyddog priodol cyn 26 Gorffennaf 2010 mewn perthynas â'r hysbysiad hwnnw,

bydd adran 21 o Ddeddf 1984 yn parhau mewn grym at ddibenion yr hysbysiad (er gwaethaf diddymu'r adran honno gan Ddeddf 2008).

**Adran 22 o Ddeddf 1984**

**7.** Mewn achos—

(a) pan fo swyddog priodol awdurdod lleol wedi gofyn i bennaeth ysgol ddarparu rhestr o enwau a chyfeiriadau disgyblion o dan adran 22 o Ddeddf 1984(**5**) (rhestr o ddisgyblion dydd mewn ysgol sydd ag achos o glefyd hysbysadwy);

(b) pan nad yw'r amser ar gyfer cydymffurfio â'r cais wedi dod i ben; ac

(c) pan na chydymffurfiwyd â'r cais cyn 26 Gorffennaf 2010,

rhaid trin y cais fel cais a wnaed o dan reoliad 3 o'r Rheoliadau Pwerau Awdurdodau Lleol (gofyniad i ddarparu manylion am blant sy'n mynychu ysgol).

**Adran 31 o Ddeddf 1984**

**8.** Pan fo—

(a) yr awdurdod lleol wedi rhoi hysbysiad i feddiannydd o dan adran 31 o Ddeddf 1984 (diheintio mangre); a

(b) y camau a bennwyd gan yr awdurdod lleol yn ei hysbysiad heb eu cyflawni gan yr awdurdod lleol na'r meddiannydd cyn 26 Gorffennaf 2010,

bydd adran 31 o Ddeddf 1984 yn parhau mewn grym at ddibenion yr hysbysiad (er gwaethaf diddymu'r adran honno gan Ddeddf 2008).

---

(**4**) Cyn ei diddymu, diwygiwyd adran 20 gan Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990 (p.16), Atodlen 3, paragraff 28.
(**5**) Cyn ei diddymu, diwygiwyd adran 22 yn rhinwedd Proclamasiwn Brenhinol dyddiedig 31 Rhagfyr 1984 a oedd yn diddymu'r ddimai.

### Adrannau 35 i 38 a 40 o Ddeddf 1984

**9.** Yn union cyn 26 Gorffennaf 2010, os oes gorchymyn mewn grym, a wnaed gan ynad heddwch o dan un neu ragor o adrannau 35 i 38 a 40 o Ddeddf 1984(**6**) (sy'n ymwneud â gorchmynion ynadon heddwch)—

(a) rhaid trin y gorchymyn fel pe bai wedi ei wneud o dan adran 45G (pŵer i orchymyn mesurau iechyd mewn perthynas â phersonau) ac, os cyfunwyd y gorchymyn â gwarant, adran 45K (gorchmynion Rhan 2A: atodol) o Ddeddf 1984;

(b) bydd y gorchymyn yn peidio â bod mewn grym ar ôl cyfnod o 14 diwrnod sy'n dechrau gyda 26 Gorffennaf 2010, neu ar ôl pa bynnag gyfnod byrrach a bennir yn y gorchymyn; ac

(c) ni chaniateir estyn y gorchymyn, ond nid yw hynny'n rhwystro ynad heddwch rhag gwneud gorchymyn newydd o dan adrannau 45G neu 45K o Ddeddf 1984, yn ôl fel y digwydd.

### Adran 42 o Ddeddf 1984

**10.** Yn union cyn 26 Gorffennaf 2010, os oes gorchymyn mewn grym, a wnaed gan lys ynadon o dan adran 42 o Ddeddf 1984 (cau llety cyffredinol oherwydd clefyd hysbysadwy)—

(a) rhaid trin y gorchymyn fel pe bai wedi ei wneud o dan adran 45I o Ddeddf 1984 (pŵer i orchymyn mesurau iechyd mewn perthynas â mangre);

(b) bydd y gorchymyn yn peidio â bod mewn grym ar ôl cyfnod o 14 diwrnod sy'n dechrau gyda 26 Gorffennaf 2010 (neu ar ôl pa bynnag gyfnod byrrach a bennir yn y gorchymyn); ac

(c) ni chaniateir estyn y gorchymyn, ond nid yw hynny'n rhwystro ynad heddwch rhag gwneud gorchymyn newydd o dan adran 45I o Ddeddf 1984.

### Adran 43 o Ddeddf 1984

**11.** Pan fo—

(a) swyddog priodol awdurdod lleol neu ymarferydd meddygol cofrestredig wedi ardystio, o dan adran 43 o Ddeddf 1984 (person â chlefyd hysbysadwy, a fu farw mewn ysbyty), na ddylid symud corff marw o ysbyty ac eithrio at y diben o'i symud yn uniongyrchol i gorffdy neu i'w gladdu neu'i amlosgi yn ddi-oed; a

(b) y corff sy'n destun yn ardystiad yn parhau yn yr ysbyty hwnnw yn union cyn 26 Gorffennaf 2010,

bydd adran 43 o Ddeddf 1984 yn parhau mewn grym at ddibenion yr ardystiad a'r corff (er gwaethaf diddymu'r adran honno gan Ddeddf 2008).

### Adran 74 o Ddeddf 1984

**12.** Bydd unrhyw ddiffiniad yn adran 74 o Ddeddf 1984 (**7**) (dehongli) a ddefnyddir yn—

(a) adrannau 13 i 15 neu 76 o Ddeddf 1984; neu

(b) unrhyw ddarpariaeth o Ddeddf 1984 sy'n parhau mewn grym at ddibenion penodedig yn rhinwedd paragraffau 2 i 11 o'r Atodlen hon,

---

(**6**) Cyn ei diddymu, diwygiwyd adran 37 gan: Deddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol a Gofal yn y Gymuned 1990 (p.19), Atodlen 9, paragraff 26(2), Atodlen 10; Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Iechyd Cymunedol a Safonau) 2003 (p.43), Atodlen 4, paragraffau 60 a 62; O.S. 2000/90, Atodlen 1, paragraff 17(1) a (4)(b); O.S. 2002/2469, Atodlen 1, Rhan 1, paragraff (11)(1) a (4)(a) a (b); ac O.S. 2007/961, yr Atodlen, paragraff 14(1) a (6)(a) a (b).

(**7**) Cyn ei ddiddymu, diwygiwyd y diffiniad o "NHS Trust", a roddir yn adran 74, gan Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Darpariaethau Canlyniadol) 2006 (p.43), Atodlen 1, paragraffau 78 a 79. Nid yw'r diwygiadau eraill i adran 74 yn berthnasol yma.

yn parhau mewn grym at ddibenion dehongli'r adrannau a'r darpariaethau hynny (er gwaethaf eu diddymu, a diddymu adran 74 o Ddeddf 1984, gan Ddeddf 2008).